Cwrt Linden
Clos Ilex
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DZ

Ffôn 029 2076 1861
Ffacs 029 2076 3163

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 20 Gorffennaf 2006

Teitl: **DANGOSYDDION PERFFORMIAD 2004/05**

Dengys ffigurau ar gyfer y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd heddiw fod llwyddiant sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i recriwtio myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch wedi parhau.

Mae'r ffigurau, ar gyfer y flwyddyn academaidd 2004/05, yn dangos cyflawniadau'r sector AU yng Nghymru mewn perthynas ag ehangu cyfranogiad mewn AU.

Roedd sefydliadau a cholegau Cymru yn parhau i recriwtio cyfrannau uwch o israddedigion ifanc amser-llawn o ysgolion y wladwriaeth, grwpiau economaidd-gymdeithasol is a chymdogaethau lle ceir cyfranogiad isel mewn AU na'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd.

Yn ogystal â gweld cynnydd ar 2003/04 yn y gyfran o israddedigion rhan-amser newydd nad oedd ganddynt unrhyw brofiad blaenorol o AU ac a oedd yn dod o gymdogaethau lle mae cyfranogiad yn isel, hon oedd y gyfran uchaf yn y DU hefyd.

Un o'r llwyddiannau mawr yw bod y gyfran o fyfyrwyr mewn sefydliadau Cymreig sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl yn dal i gynyddu a'i bod, yn achos myfyrwyr amser-llawn, yn parhau'n uwch na'r gyfran ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd.

Y prif ganlyniadau ar gyfer Cymru yn 2004/05 oedd:

- Roedd 92% o israddedigion ifanc amser-llawn newydd yn sefydliadau addysg uwch (SAUau) Cymru yn 2004/05 yn dod o ysgolion neu golegau'r wladwriaeth o'i gymharu â 87% ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd.

- Roedd 17% o israddedigion ifanc amser-llawn newydd yn sefydliadau addysg uwch Cymru yn dod o gymdogaethau lle mae cyfranogiad mewn AU yn isel, o'i gymharu â 14% ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd.

- Roedd y gyfran o israddedigion amser-llawn newydd yn SAUau Cymru a oedd yn dod o'r pedwar grŵp economaidd-gymdeithasol isaf yn parhau ychydig yn uwch na'r gyfran ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd.

- Gyda chynnydd o 14% yn 2003/04 i 17% yn 2004/05, roedd gan Gymru y gyfran uchaf o hyd yn y DU o israddedigion rhan-amser nad oedd ganddynt unrhyw brofiad blaenorol o AU ac a oedd yn dod o gymdogaethau lle mae cyfranogiad mewn AU yn isel.

- Cafwyd cynnydd eto yn y gyfran o fyfyrwyr mewn sefydliadau Cymreig sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl, gyda 5% yn derbyn y Lwfans yn 2004/05. Roedd hyn hefyd yn parhau'n fwy na'r gyfran ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd.

- Roedd 22% o'r israddedigion aeddfed amser-llawn newydd yng Nghymru heb brofiad blaenorol o AU ac yn dod o gymdogaeth lle mae cyfranogiad yn isel, o'i gymharu ag 16% ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd.

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru:

"Mae hyn yn newyddion gwych i Gymru. Mae'n cadarnhau bod ein prifysgolion a cholegau wedi ymrwymo i gynnig cyfleoedd i bawb sy'n gallu elwa ar addysg uwch. Mae dilyn cwrs addysg uwch yn brofiad gwerthfawr iawn ac mae ein sefydliadau'n gweithio'n galed gydag ysgolion a cholegau i ledaenu'r neges hon ar hyd a lled Cymru drwy ein cynllun *Ymgyrraedd yn Ehangach*, a gyflwynwyd i godi dyheadau ymhlith darpar fyfyrwyr ifanc ac aeddfed fel ei gilydd.

"Mae'r twf yn nifer y myfyrwyr sy'n derbyn y Lwfans Myfyrwyr Anabl i'w groesawu hefyd. Rydym yn bwriadu adeiladu ymhellach ar y sylfaen gref hon wedi penodi Cydgysylltydd Anabledd ac Amrywiaeth a fydd yn gweithio'n agos â'r sector i gynyddu i'r eithaf y cymorth a roddant i fyfyrwyr anabl." Diwedd.

Cysylltiadau i'r cyfryngau

CCAUC

Emma Rączka, Rheolwr Cyfathrebiadau - 029 2068 2225
Dale Hall, Pennaeth Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol - 029 2068 2280

Nodiadau i Olygyddion

Dangosyddion Perfformiad

Mae testun llawn a thablau 'Performance Indicators in Higher Education in the UK 2004/05' i'w cael ar wefan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), **www.hesa.ac.uk/pi**.

Cyhoeddir y Dangosyddion Perfformiad gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ar ran pedwar corff cyllido addysg uwch y DU: Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, Cyngor Cyllido'r Alban, ac Adran Cyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon.

Cefndir - CCAUC

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Fe'i sefydlwyd ym mis Mai 1992 a daeth yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru ar 1 Ebrill 1993.

O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan y Cynulliad i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch a chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

O dan Ddeddf Addysg 1994, mae'r Cyngor yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae'r Cyngor yn cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.